



Barbara Pogačnik

Poems

Translation: Damian Walford Davies



HALMA The European Network of Literary Centres e.V. 2010
www.halma-network.eu
mail@halma-network.eu

Hetiau

Ar y gwair, pawennau'r gath – y fath ofal! –
dyma heddwch Ebrill. Rhaffau iorwg ydym,

o'r traed i'r galon. O'r cysgodion cwmp
bwganod brain; am ennyd, gwisgwn

eu hetiau am ein traed. Yn nŵr y bae,
y capiau glas yw'r blodau cyntaf.

Cilgant yw'r corff o gylch y lleuad;
mae'r aelwydydd yn disgwyl amdanom.

Ffeiriodd y blodau eu petalau gwyn.
Anghofia'r gath addfwynder ei phawennau;

tyf yn hy, yn llewaidd. Dacw ein pennau
ar y lawntiau bowlio – lleuadau noeth, di-het.



o Elfennau

Cerdda'r cariadon
at erwinder goror gwyn

y môr, a chyffwrdd
â rhychau gaeaf ei groen

yng ngolau gwynfelyn
y bore. Mor agos

oedd Ultima Thule
yn eiliad yr ymestyn.



Rhedeg Rhag y Ffilm

Mae Sean Penn wedi syrthio

mewn cariad –

ond mae'r bwmbeili wrth y drws.

Rhed, Sean!

Rhed!

Ar herw drwy strydoedd

a choedwigoedd, heibio sinemâu

a chapeli –

Ah!

Pwy yw'r ferch droednoeth,

acw'n gwylio?

Dacw Sean Penn

o flaen Cadillac.

Mae ganddo wn –

dau! Fe'u bysedda.

Ar y stryd, mae ar y ferch

â'r llygaid noeth

a'r dillad llwyd

ofn:

o'i hamgylch,

fflachiadau DVDs.

Welwch-chi, fanna, ddarn o'r siot

yn nwfr ei llygad?

A'r boen? A'r boen?



HALMA The European Network of Literary Centres e.V. 2010

www.halma-network.eu

mail@halma-network.eu

Edau Mehefin

Mae a wnelo (dywedodd)
nid â'r wyllo'n unig - tremolo
blodau Mrs Dalloway! -
ond â'r dagrau'n llifo nôl

i'w tarddle, fel trwy
wythiennau coed -
cyfrinach dyrchafael dŵr,
uniad dŵr ac anadl.

Arwyddion (dywedodd)
yw'r pethau hyn
o'n gafael ar glogwyn
amser, geiriau'n codi

trwy lwydfarf y bore
rhwng nos a dydd,
a thithe (dywedodd)
mewn cocŵn, rywle

rhwng dy hunan cudd
a hunan dy gymydog -
rhwng dau gorff lle mae
sudd pob cerdd yn symud.



This sample translation was done on occasion of the **HALMA grant** of the author **Barbara Barbara Pogačnik** at the **Translators' House Wales** in March 2010.
The original text was translated by **Damian Walford Davies**.



HALMA The European Network of Literary Centres e.V. 2010
www.halma-network.eu
mail@halma-network.eu